Adroddiad ar

Cylch Meithrin Llanbedrog

Neuadd Llanbedrog
Llanbedrog
Pwllheli
Gwynedd
LL53 7NY

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Llanbedrog

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Llanbedrog |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Einir Evans |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Einir Evans |
| Person â gofal | Barbara Warren |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Ystod oedran y plant | 2-4 |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 13 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 6 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun, Mawrth, Iau a Gwener – 9:00-15:00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 05/07/2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 22/02/2017 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 12/03/2026 |

# Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br><br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br><br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Gwella trefniadau cadw cofnodion i sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir ac yn hawdd i’w ddeall.

A2 Ffurfioli systemau goruchwylio ymarferwyr.

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae’r rhan fwyaf o blant yn defnyddio eu llais yn hyderus wrth wneud dewisiadau am eu chwarae ac wrth ddilyn eu diddordebau eu hunain. Maent yn symud yn rhydd o amgylch yr ardaloedd ac yn dewis yr adnoddau sy’n apelio atynt, gan ddangos ymdeimlad o reolaeth dros eu chwarae. Mae arferion cyson yn cefnogi’n effeithiol allu’r plant i ddeall beth sy’n digwydd nesaf, gan gynnwys defnyddio caneuon i nodi newid mewn gweithgareddau. Mae hyn yn cyfrannu at eu hymdeimlad o ddiogelwch wrth symud rhwng gwahanol adegau o’r dydd, fel amser bwyta.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn ymgartrefu’n gyflym wrth gyrraedd ac yn dangos ymdeimlad cryf o berthyn. Mae rhai yn ansicr i ddechrau, ond maent yn cael amser a chymorth priodol i setlo. Mae mannau tawel yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i blant ymlacio cyn ymuno â’r grŵp, ac mae ymarferwyr yn eu cefnogi’n sensitif i ddewis gweiithgareddau neu ardal lle maent yn teimlo’n fwy hyderus. Mae rhai plant yn cyfrannu syniadau yn effeithiol wrth ymestyn eu chwarae, er enghraifft, drwy ofyn i dynnu llun o’u gwaith ar gamera digidol, neu esbonio beth maent am wneud nesaf. Maent yn teimlo balchder yn eu cyflawniadau ac ymdeimlad cynyddol o berchnogaeth dros eu dysgu.

Mae’r plant yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol ac yn dechrau dangos parch cynhyddol at eraill. Maent yn dechrau rhannu adnoddau ac yn dangos empathi wrth helpu i dacluso neu reoli camgymeriadau bach. Mae’r rhan fwyaf yn gyfforddus wrth chwarae ochr yn ochr ac mae rhai yn dechrau ymuno mewn gweithgareddau cydweithredol. Er enghraifft, maent yn gweithio gyda’u gilydd wrth drefnu anifeiliaid yn eu chwarae neu ddatblygu syniadau wrth adeiladu. Mae’r plant yn datblygu eu sgiliau cyfarthrebu yn dda ac yn defnyddio brawddegau byr neu ystumiau i fynegi eu hangenion.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn dangos brwdfrydedd wrth gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau. Maent yn dangos mwynhad amlwg wrth gwblhau gwaith creadigol neu gymryd rhan mewn gemau dychmygol. Er enghraifft, wrth ddefnyddio bocs cardfwrdd i greu roced ddychmygol. Mae rhai plant yn datblygu dyfalbarhad ac yn datrys problemau wrth wynebu heriau newydd, er enghraifft, wrth ddysgu sut i ddefnyddio tâp mesur. Pan fyddant yn llwyddo, maent yn dangos balchder drwy wenu, pwyntio neu rannu eu llwyddiant gyda’r ymarferwyr.

Mae’r plant yn datblygu sgiliau annibynniaeth cadarn. Maent yn dewis adnoddau’n hyderus, er enghraifft, wrth ddewis basgedi teganau oddi ar y silffoedd. Mae llawer yn ceisio gwisgo eu cotiau eu hunain yn annibynnol, ac yn gosod eu heiddo ar eu pegiau, ond hefyd yn gofyn am gymorth pan fo angen. Yn ystod amser snac, mae’r plant yn gwasanaethu eu hunain yn hyderus, gan arllwys diod a rhoi gweddillion i’r bin bwyd heb

anogaeth. Maent hefyd yn mwynhau cyfleoedd gwerthfawr i gyfrannu at dasgau grŵp drwy helpu ymarferwyr i olchi a sychu llestri, ac mae hyn yn hyrwyddo ymdeimlad cryf o gyfrifoldeb a pharatoad ar gyfer sgiliau bywyd.

## Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae'r rhan fwyaf o blant yn meddu ar fedrau cymdeithasol da a maent yn magu hyder wrth gyd chwarae'n hapus a rhannu adnoddau'n gynyddol aeddfed. Maent yn dethol y mannau lle maent am chwarae a'r adnoddau sy'n apelio atynt yn annibynnol.

Mae medrau cyfathrebu'r rhan fwyaf o blant yn datblygu'n gadarn. Maent yn ymateb yn gynyddol hyderus yn eu iaith gyntaf, er enghraifft wrth chwarae rôl cyfarwydd fel gwerthu nwyddau yn y siop. Maent yn gwrando'n aeddfed ac yn ymateb i gwestiynau a ofynnir gan ymarferwyr. Mae eu dealltwriaeth o'r Gymraeg yn datblygu'n dda ac maent yn ymateb i gyfarwyddiadau a chwestiynau cyfarwydd yn hyderus. Maent yn canu caneuon a rhigymau Cymraeg yn llawn hwyl ac yn mwynhau dewis eu hoff ganeuon. Mae llawer yn mwynhau mynd at lyfrau darllen sydd wedi eu lleoli ar draws gwahanol ardaloedd y ddarpariaeth. Maent yn cael boddhad o wrando ar stori gan gyfrannu synau a rhannu sylwadau. Mae'r rhan fwyaf yn dechrau adnabod llythrennau cyfarwydd, er enghraifft wrth ddewis eu henwau a'u gosod ar y wal wrth gofrestru.

Mae medrau modur man y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda. Maent yn trin offer gyda'u bys a'u bawd yn gynyddol fedrus wrth rolio toes a thorri papur gyda siswrn yn ofalus. Maent yn defnyddio gwahanol offer creu marciau er mwyn ysgrifennu negeseuon ac yn arddangos rheolaeth dda wrth farcio mewn gwahanol ardaloedd. Er enghraifft, maent yn gwneud marciau ystyrlon fel nodi rhestr siopa yn y gegin chwarae tra'n sgwrsio'n ddychmygus ar y ffôn. Yn yr ardal allanol ac yn y neuadd fawr maent yn defnyddio offer marcio fel sialc i greu gwahanol linellau a siapau, gan ddangos dychymyg da.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn dangos dealltwriaeth briodol o rifau gyda llawer yn cyfri gyda'i gilydd hyd at ddeg. Maent yn dechrau deall y berthynas rhwng digidau a nifer o wrthrychau yn briodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth cynyddol gadarn o gysyniadau mathemategol syml fel mawr a bach, llawn a gwag, trwy drin cynwysyddion o wahanol feintiau yn y tywod a'r dŵr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau digidol cadarn. Maent yn mwynhau defnyddio adnoddau digidol syml ac yn chwarae gyda ceir bach trydanol gan newid eu cyfeiriad yn bwrpasol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau corfforol cadarn gan lywio beiciau bach yn hyderus, a thynnu eu ffrindiau yn y trelar. Mae enghreifftiau niferus o blant yn datblygu hyder gan reoli risgiau'n aeddfed, er enghraifft wrth ddringo'r offer mawr a llithro lawr y llithren.

Mae llawer o'r plant yn datblygu medrau creadigol cadarn ac yn dethol deunyddiau'n fwriadus i greu lluniau a phaentiadau lliwgar, er enghraifft wrth addurno cerdyn Sul y mamau. Maent yn defnyddio offer taro i greu cerddoriaeth ac wrth eu boddau'n dawnsio, gan ddangos ymwybyddiaeth dda o rhythm wrth chwifio defnydd lliwgar a symud eu cyrff i'r gerddoriaeth.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn gweithredu polisïau'n gyson ac yn dangos dealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau. Er enghraifft, maent yn cydweithio'n effeithiol i gynnal goruchwyliaeth barhaus mewn ardaloedd gwahanol, gan ymateb yn brydlon i anghenion y plant. Mae ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant briodol mewn cymorth cyntaf a diogelwch plant, ac yn dilyn gweithdrefnau damweiniau, digwyddiadau a diogelu'n ofalus. Mae cofrestrau yn dangos eu bod yn cyrraedd cymarebau staffio priodol. Fodd bynnag, mae rhai systemau cadw cofnodion yn gymhleth ac nid ydynt bob amser yn gywir ac yn glir.

Mae arferion hylendid wrth newid cewynnau yn gadarn, ac yn hyrwyddo lles a phreifatrwydd y plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn atgoffa plant yn rheolaidd am bwysigrwydd hylendid personol, er enghraifft drwy sychu trwynau a golchi dwylo'n aml. Maent hefyd yn sicrhau cyfleoedd cyson i blant dreulio digon o amser yn yr awyr agored, ac yn annog dewisiadau bwyd iach drwy gynnal sgyrsiau naturiol.

Mae ymarferwyr yn rheoli ymddygiad yn sensitif ac yn gyson. Maent yn modelu ymddygiad caredig sy'n hyrwyddo parch drwy ddefnyddio canmoliaeth ac anogaeth i feithrin hyder y plant yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn canmol ymdrechion plant sy'n ceisio ar weithgaredd newydd neu yn dangos cwrteisi tuag at eraill. Pan fo angen, mae ymarferwyr yn darparu cyfle i siarad am ddewisiadau ac emosiynau gwahanol, ac yn annog plant i ymddiheuro neu cynnig cysur tuag at eu gilydd. Mae hyn yn helpu dealltwriaeth y plant o deimladau ac yn hyrwyddo amgylchedd cymdeithasol. Mae amseroedd cinio yn bleserus, gyda'r plant yn rhannu eu profiadau ac yn sgwrsio'n braf mewn awyrgylch hamddenol.

Mae ymarferwyr yn adnabod anghenion a diddordebau'r plant yn dda, ac yn creu profiadau sy'n adlewyrchu hyn. Maent yn dangos brwdfrydedd tuag at chwarae'r plant ac yn deall pryd i gamu yn nôl neu i ymyrryd i ymestyn profiadau dysgu. Mae defnydd naturiol ymarferwyr o'r Gymraeg yn gyson yn cyfrannu at ddatblygiad iaith y plant yn gadarn. Maent yn addasu brawddegau'n briodol i gynnal a chefnogi eu datblygiad. Mae ymarferwyr yn deall sut i gefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn effeithiol ac yn cydweithio â rhieni ac asiantaethau allanol yn llwyddiannus pan fo angen, er enghraifft, therapyddion iaith a lleferedd. Maent yn cynllunio'n briodol ar gyfer camau nesaf unigolion i gyfoethogi datblygiad a llesiant y plant yn fwriadus.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn darparu ystod eang a diddorol o adnoddau sy'n hybu annibyniaeth y plant a chaniatáu iddynt wneud penderfyniadau'n hyderus. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o blant yn ymgolli'n llwyr yn eu gweithgareddau ac yn dysgu rhannu a chyd chwarae wrth iddynt aeddfedu. Mae ymarferwyr yn darparu cyfnodau estynedig o chwarae di-dor, ac yn ymyrryd yn fedrus yn y chwarae, gan gynnig syniadau er mwyn ategu'r dysgu. Gwneir defnydd effeithiol o'r lleoliad yn ei gyfanrwydd. Mae'r ymarferwyr yn deall pwysigrwydd caniatáu i blant weithredu ar ymddygiadau ail-adroddus yn ôl yr angen ac yn eu cefnogi i ymgolli yn eu chwarae.

Mae ymarferwyr yn cynnal perthynas weithio agos a chefnogol gyda rhieni a gofalwyr. Defnyddir lluniau o deuluoedd y plant, a'r ardal leol i greu cysylltiadau sy'n atgyfnerthu'r ymdeimlad o berthyn â'r gymuned yn effeithiol. Mae hyn yn hyrwyddo cymuned hapus a gofalgar. Mae ymarferwyr yn cyfathrebu'n rheolaidd gyda rhieni i rannu gwybodaeth defnyddiol am ddatblygiad eu plentyn.

Mae ymarferwyr yn cefnogi datblygiad llafaredd y plant yn effeithiol. Maent yn defnyddio cwestiynau ac awgrymiadau priodol sy'n annog ymatebion ac ymestyn gallu'r plant i sgwrsio. Maent yn datblygu dealltwriaeth y plant o'r Gymraeg drwy sefydlu'r defnydd o batrymau iaith cyfarwydd.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo mwynhad y plant mewn llyfrau yn effeithiol. Maent yn darllen straeon i'r plant yn achlysurol drwy eistedd yn hamddenol gydag unigolion, neu grŵp bach. Maent yn cefnogi ymwybyddiaeth cynnar y plant o lythrennedd drwy arddangos print ac iaith ar draws holl ardaloedd y ddarpariaeth. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i blant archwilio llythrennau ymarferol mewn chwarae agored er mwyn cefnogi eu medrau llythrennedd ymhellach.

Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd effeithiol i ddatblygu medrau mathemategol, drwy leoli adnoddau amrywiol ar draws yr amgylchedd. Yn yr un modd, mae'r darpariaeth ar gyfer datblygu medrau digidol yn amrywiol ac yn ymgysylltu'r plant yn llwyddiannus drwy ddefnyddio adnoddau sy'n annog dewisiadau neu achosi effaith.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad moesol, diwylliannol ac ysbrydol y plant yn fuddiol. Maent yn defnyddio ystod eang o adnoddau i ddatblygu dealltwriaeth y plant o degwch a diwylliannau eraill, gan gynnwys llyfrau, doliau a bwydydd o bob math. Gosodir hyn mewn cyd destun lleol gan ganolbwyntio ar ddiwylliant a threftadaeth Gymraeg yr ardal.

Mae ymarferwyr yn cynllunio'r cwricwlwm yn effeithiol sydd wedi ei seilio ar lwybrau datblygiad y Cwricwlwm i Gymru. Maent yn arsylwi ar blant yn rheolaidd er mwyn adnabod

cynnydd a chamau datblygu pwysig. Defnyddir yr arsylwadau hyn er mwyn creu cofnod manwl ac effeithiol o daith dysgu dros amser.  Mae’r cofnodion hyn yn darparu crynodeb hynod fanwl a buddiol o daith a chynnydd y plentyn dros gyfnod, ac yn adnabod y camau nesaf yn natblygiad pob plentyn i lywio cynlluniau pellach.

## Yr amgylchedd:  Da

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd diogel, glân ac o ansawdd uchel. Mae trefniadau effeithiol er mwyn sicrhau nad ydi unrhyw un yn cael mynediad heb ganiatad. Mae ystod eang o asesiadau risg manwl yn cefnogi diogelwch o fewn yr amgylchedd ac mae rhain yn cael eu hadolygu’n rheolaidd. Mae arweinwyr yn sicrhau gweithdrefnau diogelwch cadarn yn ystod unrhyw waith ar yr adeilad. Mae ymarferion tân ac argyfwng yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod cyfarpar cymorth cyntaf a thystysgrifau diogelwch yn gyfredol, gan adlewyrchu dull gweithredol o reoli iechyd a diogelwch.

Mae arweinwyr yn creu amgylchedd gynnes a chroesawgar sy’n elwa ar olau naturiol. Mae enghreifftiau o waith y plant a lluniau ohonynt yn addurno’r waliau, sy’n meithrin ymdeimlad cryf o berthyn a balchder. Mae ardaloedd cyfoethog a darpariaeth sy’n cynnig profiadau chwarae o ansawdd uchel. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd hyblyg o’r holl ardaloedd, gan ddidoli adnoddau rhwng yrystafelloedd chwarae a’r ardal tu allan yn effeithiol. Maent yn trefnu dodrefn ac adnoddau sy’n annog llif naturiol rhwng yr ardaloedd, gan ysgogi plant i archwilio’n annibynnol. Mae’r ardal tu allan yn cynnig gweithgareddau gyda deunyddiau naturiol fel pridd, tywod a dŵr, a’r neuadd yn cyfoethogi cyfleoedd i ymarfer datblygiad corfforol, a digon o le i ddefnyddio beiciau ac offer dringo. Mae’r darpariaeth yn hyblyg, ac yn cael ei haddasu i gyd-fynd ag anghenion a diddordebau’r plant, ac weithiau’n seiliedig ar ddigwyddiadau neu dathliadau gwahanol.

Mae ansawdd yr adnoddau a’r cyfarpar yn dda, ac yn cefnogi chwilfrydedd a datblygiad y plant yn llwyddiannus.  Er enghraifft, mae plant yn defnyddio adnoddau go iawn yn yr ardal chwarae rôl, gan ddychmygu gwahanol sefyllfaoedd coginio drwy ychwanegu perlysiau, coffi neu siocled poeth. Mae arweinwyr yn sicrhau bod adnoddau yn cael eu ailgyflwyno’n rheolaidd i gynnal diddordebau ac angenion y plant. Maent hefyd yn sicrhau bod cyfleusterau a dodrefn yn addas i oedran a camau datblygiad y plant gan gefnogi eu gallu i wneud dewisiadau’n annibynnol.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth:  Da

Mae’r arweinydd a’r tîm yn cydweithio’n agos ac yn llwyddiannus i ddarparu profiadau dysgu a chwarae o ansawdd da. Mae’r pwyllgor yn darparu arweiniad strategol buddiol ac yn cynnig cefnogaeth ymarferol ar gyfer yr arweinydd a’r staff. Mae’r arweinydd yn gweithio’n agos gydag athrawon ymgynghorol y blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol, yn ogystal â mudiadau ymbarél, i werthuso a datblygu’r ddarpariaeth yn barhaus.  Mae

hyn yn sicrhau bod arferion yn cael eu hadolygu’n rheolaidd i gefnogi darpariaeth o safon uchel.

Mae arweinwyr yn cynnal gweithgareddau hunanwerthuso trylwyr ac effeithiol. Maent yn cynnwys y pwyllgor rheoli, staff a rhieni yn y gweithdrefnau hyn gan gywain barn ac ystyried adborth. Mae’r blaenoriaethau yn derbyn sylw ymarferol, ac mae arweinwyr yn dyrannu cyllid addas, gan gynnwys arian grantiau, i wella’r ddarpariaeth. Enghraifft diweddar o hyn yw’r cyllid roddwyd ar gyfer dodrefn addas i gyfoethogi rhai o’r ardaloedd chwarae, sy’n effeithio’n gadarnhaol ar brofiadau, cynnydd a lles y plant.

Mae arweinwyr yn darparu profiadau datblygu proffesiynol gwerthfawr ar gyfer y staff, sy’n cysylltu’n uniongyrchol gyda’u anghenion datblygiad personol a blaenoriaethau gwelliant y lleoliad. Maent yn annog dysgu parhaus ac amser myfyrio, ac mae staff yn teimlo’n hyderus i ofyn am gymorth neu i drefnu cyfleoedd datblygu. Er bod arweinwyr yn arsylwi ar ymarferwyr, nid yw’r trefniadau hyn wedi eu ffurfioli’n ddigonol i sicrhau cysondeb a chraffu’n systematig ar ansawdd yr ymarfer.

Mae arweinwyr yn cydweithio’n agos gydag amrediad o asiantaethau allanol, o fewn yr awdurdod lleol a thu hwnt. Trefnir cyfleoedd gwerthfawr i ymweld â’r gymuned leol, sy’n cefnogi ymwybyddiaeth y plant o’r byd o’u cwmpas mewn ardal wledig Gymreig. Enghraifft dda yw’r orymdaith i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, lle mae plant y cylch yn ymuno i ddathlu gyda rhai disgyblion o’r ysgolion lleol. Gwahoddir cynrychiolwyr o’r gymuned i gyfoethogi profiadau dysgu’r plant ac i ehangu eu dealltwriaeth o ddiwylliant a bywyd lleol. Er enghraifft, ymweliad ffermwr lleol i gyfoethogi profiad y plant o weld wyn bach yn agos.

Mae perthynas waith agos a chefnogol rhwng y lleoliad a’r rhieni. Mae arweinwyr yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu i gynnal cysylltiadau agos ac i rannu gwybodaeth am brofiadau a chynnydd y plant. Er enghraifft, defnyddir ap buddiol i’r rhieni weld y plant wrth eu gweithgareddau ac mae cyfleoedd rheolaidd ar gyfer trafodaethau anffurfiol yn ôl yr angen. O ganlyniad, mae rhieni yn teimlo’n gartrefol i drafod unrhyw bryderon o fewn amgylchedd cefnogol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 19/05/2026